

# Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022- 23

Chwefror 2022

1. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23 ddydd Llun 21 Rhagfyr 2021.
2. Fel rhan o'i waith craffu ar y gyllideb flynyddol, cynhaliodd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol (CCWLSIR) gyfres o sesiynau craffu gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru mewn [cyfarfod](#) ddydd Mercher 19 Ionawr 2022. Clywodd y Pwyllgor gan y Gweinidogion a ganlyn yn Llywodraeth Cymru:

Pwnc	Gweinidog(ion)
Diwylliant, Cyfathrebu a Chwaraeon	Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi Dawn Bowden AS, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip
Cysylltiadau Rhyngwladol	Mark Drakeford AS, Y Prif Weinidog
Y Gymraeg	Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

3. Roedd gwaith craffu'r Pwyllgor ar y gyllideb hefyd wedi'i lywio gan bapur tystiolaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru a barn rhanddeiliaid mewn [tystiolaeth](#) ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyllid.
4. Yna ysgrifennodd y Pwyllgor ar wahân at y Gweinidogion gyda sylwadau ar y gyllideb ddrafft ac yn gofyn am ragor o wybodaeth am amrywiaeth o wahanol faterion. Mae'r llythyrau hyn ynghlwm yn Atodiad A-C.



**5.** Mae'r llythyrau hyn yn adlewyrchu'r trafodaethau a'r argymhellion ar gyfer Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23 sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

# Atodiad A: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23: Diwylliant, Cyfathrebu a Chwaraeon

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
SeneddDiwylliant@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddDiwylliant  
0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddCulture@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddCulture  
0300 200 6565

Vaughan Gething AS

Gweinidog yr Economi

Dawn Bowden AS

Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon,

a'r Prif Chwip

Llywodraeth Cymru

4 Chwefror 2022

Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23: Diwylliant, Cyfathrebu a Chwaraeon

Annwyl Vaughan a Dawn,

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ddydd Mercher 19 Ionawr 2022 i drafod Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23. Yn dilyn y cyfarfod, hoffem godi rhai pwyntiau pellach gyda chi ynglŷn â'r gyllideb ddrafft ar gyfer Diwylliant, Cyfathrebu a Chwaraeon. Lle bo'n briodol, rydym hefyd yn gwneud argymhellion ar gyfer y Gyllideb Ddrafft.

Byddwn yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid i lywio ei waith craffu ar y Gyllideb Ddrafft.

Cyllid Adferiad Diwylliannol a chymorth i weithwyr llawrydd

Mae'n nodedig mai dyma'r rownd gyntaf o Gyllid Adferiad Diwylliannol nad yw wedi dilyn cyhoeddiad ariannu cyfatebol yn Lloegr; felly dyma'r un cyntaf a ariennir yn bennaf o adnoddau Llywodraeth Cymru ei hun yn hytrach na defnyddio Canlyniad Barnett newydd. Fel y cyfryw, nodwn bwynt Gweinidog yr Economi fod swm y Gronfa Adferiad Diwylliannol 3 yn gydbwysedd rhwng angen a'r hyn y gellir fforddio ei ddarparu.

Rydym yn sylweddoli y gall gwariant Llywodraeth Cymru ar y gronfa hon gael ei gyfyngu gan fforddiadwyedd. Hoffem felly weld dadansoddiad manwl gan Lywodraeth Cymru o gyfanswm yr angen yn y sector, fel y gall y Pwyllgor ac eraill asesu pa ymyriadau polisi pellach y gallai fod eu hangen er mwyn helpu'r sector diwylliannol i oroesi a ffynnu yn dilyn gaeaf arall o weithgarwch cyfyngedig.

Rydym yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi dyblu dyfarniad grant y Gronfa Argyfwng Busnes, y mae gweithwyr llawrydd yn gymwys i'w gael, i £1,000. Yn flaenorol, mae gweithwyr llawrydd wedi derbyn cymorth ar lefel uwch drwy agwedd Cronfa Gweithwyr Llawrydd bwrpasol o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol. O ystyried effaith barhaus y pandemig ar incwm gweithwyr llawrydd diwylliannol, hoffem i Lywodraeth Cymru egluro a fydd rownd ddilynol o'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd ar ddod, a darparu ei dadansoddiad o effaith y pandemig ar incwm gweithwyr llawrydd yn ystod gaeaf 2021-2022.

### **Effaith pasys COVID**

Yn ystod ein trafodaethau gyda chi, cawsom ein synnu o glywed nad oes unrhyw fecanwaith ffurfiol yn cael ei ddefnyddio i ystyried effaith pasys COVID ar leoliadau diwylliannol a chwaraeon. Fel y trafodwyd, rydym yn ymwybodol o wybodaeth anecdotaidd am effaith y pasys, sy'n amrywio rhwng gwahanol sectorau. Fel chithau, o ran yr effaith ar dderbynebau giatiau, rydym wedi clywed bod lleoliadau awyr agored yn ôl pob tebyg yn gwneud yn well na lleoliadau dan do.

Mae Ffilm Cymru wedi dweud wrth y Pwyllgor hwn o'r blaen eu bod yn gweld lleoliadau—mae'n ddyddiau cynnar o hyd, yn amlwg—yn nodi gostyngiadau o rhwng 43 a 51 y cant o dderbyniadau blaenorol, cyn y pasys COVID. Rydym yn derbyn y gallai'r ffigurau hyn fod o ganlyniad i nifer o faterion, gan gynnwys ymddygiad defnyddwyr yn newid yn sgil y pandemig, nid pasys COVID yn unig. Wedi dweud hynny, ar gyfer lleoliad bach, byddem yn disgwyl i'r mathau hyn o ffigurau gael effaith ddinistriol ar eu hincwm. Am y rheswm hwn, rydym yn pryderu bod lleoliadau dan do, yn enwedig lleoliadau llai fel lleoliadau cerddoriaeth fyw a chelfyddydau cymunedol, yn debygol o deimlo effaith pasys COVID yn fwy na stadiwm chwaraeon mawr.

Er mwyn deall effaith ariannol y pasys hyn yn llawn, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad ffurfiol o'u heffaith ar frys. Dylem nodi nad yw hyn yn ymwneud â ph'un a ddylai pasys o'r fath fod wedi'u cyflwyno ai peidio - mae hynny'n drafodaeth ar wahân. Mae hyn fel ein bod ni i gyd yn gallu deall yn llawn y goblygiadau ariannol i'r lleoliadau cymunedol bach hyn a sicrhau bod y cymorth perthnasol ar gael er mwyn eu helpu i oroesi, cyn i'r gwaith ddechrau ar eu hadferiad. Roeddem yn croesawu eich natur agored o ran cael rhagor o sgysiau ynghylch lle y gallai fod angen cymorth o'r fath; byddai'r adolygiad hwn yn llywio sgysiau o'r fath yn fawr.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad ffurfiol ar frys o'r effaith ariannol y mae pasys COVID wedi'i chael ar leoliadau diwylliannol a chwaraeon.

### Strategaeth ddiwylliannol

Rydym yn croesawu'r newyddion y bydd eich gwaith ar strategaeth ddiwylliannol yn dechrau o ddifrif eleni, ac edrychwn ymlaen at weld y manylion maes o law. O ystyried pa mor ganolog yw'r strategaeth hon i'ch cynlluniau gwariant, byddem yn ddiolchgar pe baech yn fodlon ymrwymo i gyfarfodydd rheolaidd gyda'r Cadeirydd er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y strategaeth.

Ar yr adeg briodol, byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech egluro'r dyraniadau cyllideb gwirioneddol ar gyfer y strategaeth a'r gwahanol raglenni llywodraeth sy'n sail i'r strategaeth. Byddai hyn yn cynnwys gwybodaeth am bwy sy'n gyfrifol am ba elfennau o'r strategaeth. Yn ogystal â hyn, hoffem wybod hefyd sut y bydd sefydliadau ar lawr gwlad yng Nghymru yn gallu llywio cynnwys y strategaeth. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall sut y caiff y strategaeth ei hariannu a gwaith sefydliadau eraill wrth ei datblygu a'i chyflawni.

### Cyllid cyfalaf ar gyfer y Llyfrgell Genedlaethol ac Amgueddfa Cymru

Trafodwyd ein pryderon gyda chi ynghylch y gostyngiadau mewn cyllid cyfalaf ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru. Bydd cyllid cyfalaf ar gyfer y sefydliadau hyn yn cael ei leihau 32 y cant a 33 y cant yn y drefn honno yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol wedi dweud wrthym yn y gorffennol mewn perthynas â'r Adolygiad wedi'i Deilwra:

*Many of the most important recommendations are absolutely dependent on the level of funding from Welsh Government. So, the success of the implementation of the action plan will be absolutely dependent on to what extent Welsh Government have actually addressed recommendation 3 of the report, which is, to the library, the most important recommendation, in that*

*the current financial position of the library and its relationship with Welsh Government is absolutely unsustainable.*

Fel yr amlinellwyd yn yr Adolygiad wedi'i Deilwra, rhagwelir y bydd angen hyd at £26 miliwn mewn cyllid cyfalaf i wneud gwaith cynnal a chadw a gwelliannau angenrheidiol i'r adeilad. Rydym yn pryderu po hiraf y bydd yn ei gymryd i gwblhau'r gwaith hwn, yr hiraf y gallai rhai o gasgliadau pwysicaf y genedl fod dan fygythiad. Nodwyd eich eglurhad ynglŷn â pham mae'r setliadau refeniw a chyfalaf ar gyfer y Llyfrgell Genedlaethol fel ag y maent ond rydym yn gryf o'r farn bod angen mynd i'r afael â'r ôl-groniad ar frys.

Mae gennym hefyd bryderon tebyg ynghylch setliad cyllideb gyfalaf Amgueddfa Cymru. Fel y byddwch yn gwbl ymwybodol, mae'r adeilad ym Mharc Cathays yn wynebu heriau sylweddol o ran ei gynnal a'i gadw. Rydych wedi cydnabod bod problem gyda gwaith cynnal a chadw yn eich tystiolaeth ysgrifenedig i ni. Rydym yn cytuno â chi fod y gwaith cyfalaf hwn hefyd yn ymwneud â chefnogi ffrydiau gwaith a fydd yn gwella profiad ymwelwyr. Fodd bynnag, fel yn achos y Llyfrgell Genedlaethol, mae bygythiad difrifol i rai casgliadau pwysig.

Mae'r ddau sefydliad hyn yn drysorau absoliwt i'n cenedl ac rydym yn siŵr y byddwch yn cytuno â ni fod angen gweithredu ar y ddau fater hyn yn awr yn hytrach nag yn hwyrach. Byddem yn argymhell eich bod yn amlinellu sut y byddwch yn cefnogi'r ddau sefydliad i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y mae'n bwriadu cefnogi Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru i fynd i'r afael â'u hól-groniad o brosiectau cyfalaf.

### Gwariant cyllidebol ar gyfer Chwaraeon

Roedd eich tystiolaeth ysgrifenedig cyn ein sesiwn yn nodi:

*Gall chwaraeon fod yn offeryn iechyd ataliol mwyaf effeithiol y wlad ond mae angen mwy o flaenoriaethu traws-sector i greu'r newidiadau cynaliadwy hirdymor mewn cyfranogiad.*

Dywedodd Chwaraeon Cymru yn ei **dystiolaeth** i'n hymgyngoriad Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd y byddai'n hoffi cyfrannu mwy ar draws portffolios i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gwella iechyd y cyhoedd a chynyddu cydlyniant cymunedol. Mae **data** Chwaraeon Cymru hefyd yn dangos bod oedolion hŷn, y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is a'r rhai sydd â chyflwr neu salwch hirsefydlog yn fwy tebygol o nodi eu bod yn gwneud llai o weithgarwch nag yr oeddent cyn y pandemig. Ac eto, er gwaethaf y naratif yr ydych wedi'i gyflwyno, mae'r Gyllideb Ddrafft yn nodi mai dim ond o £22.4 miliwn i £22.7 miliwn

---

y mae cyllid refeniw ar gyfer Chwaraeon yn cynyddu yng nghyllideb ddrafft 2022-23 (cynnydd o 1 y cant mewn termau arian parod). At hynny, dros yr un cyfnod, caiff cyllid cyfalaf ei dorri o £8.6 miliwn i £8 miliwn (gostyngiad o 7 y cant mewn termau arian parod). Mae hyn yn digwydd ar adeg pan fo'r mynegai prisiau defnyddwyr blynyddol ar 4.8 y cant (yn gywir ar 19 Ionawr 2022). A allech amlinellu sut mae'r toriadau mewn termau real i'r llinell wariant yn y gyllideb ar gyfer Chwaraeon yn bodloni'r datganiad a amlygwyd uchod?

Yn ein sesiwn dystiolaeth, nodwyd fod £4 miliwn ychwanegol wedi'i ddarparu i Chwaraeon Cymru er mwyn helpu i ariannu chwaraeon ar lawr gwlad ac i wella cyfleusterau lleol. O ystyried bod tri mis o'r flwyddyn ariannol hon ar ôl, pa mor hyderus ydych chi y gellir gwario'r cyllid hwn o fewn yr amser hwnnw? Yn flaenorol, mae cyrff hyd braich fel Chwaraeon Cymru wedi gofyn am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i ddwyn ymlaen arian parod diwedd blwyddyn dros ddau y cant o gyfanswm eu cyllideb flynyddol gros. A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Chwaraeon Cymru ynglŷn â hyn os nad yw'r arian wedi'i wario?

Rydym hefyd yn deall bod mentrau chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn cael eu rhedeg gan adrannau eraill o Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae'r fenter 'Cymru o blaid pobl hŷn', sy'n cael ei rhedeg gan lechyd a Gofal Cymdeithasol, yn cynnwys ymrwymadau i helpu pobl hŷn i wneud mwy o ymarfer corff. Rydym yn gwerthfawrogi nad yw mentrau o'r fath yn dod o fewn eich cyfrifoldebau uniongyrchol o ran chwaraeon, fodd bynnag, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu dadansoddiad o'r canlynol:

- y cyllid a ddyrennir ar gyfer yr holl raglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar draws gwahanol adrannau Llywodraeth Cymru;
- manylion am bob un o'r rhaglenni hyn a sut maent yn cyd-fynd â strategaeth ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer chwaraeon; ac
- amlinelliad o gyfanswm y cyllid ychwanegol ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol gan Lywodraeth Cymru o fewn y pum mlynedd diwethaf.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa fentrau chwaraeon a gweithgarwch corfforol a ariennir gan bob adran yn naratif ei Chyllideb Ddrafft.

### **Llythyrau cylch gwaith a chylchoedd ariannu aml-flwyddyn**

Rydym yn ddiolchgar i chi am rannu gyda ni gopiau o lythyrau cylch gwaith y gwahanol gyrff nodedig a ariennir gan eich adran. Nododd Cyngor Celfyddydau Cymru a Chwaraeon Cymru

yn eu tystiolaeth ar y Gyllideb Ddrafft yr hoffent weld symudiad tuag at setliadau cyllideb aml-flwyddyn. Yn benodol, dywedodd Cyngor y Celfyddydau:

*We, like the sector we help to sustain, have inflationary and pay cost pressures that we are unable to address without knowing our budget beyond the operational year. The inability to plan affects the freelancing back bone of the arts and the creative economy.*

Yn ystod ein cyfarfod, nodwyd mai rhwystr ar gyflwyno cyllidebau aml-flwyddyn oedd bod y DU yn gweithredu model ariannu cylch blynyddol. Gallai hyn olygu bod gwahaniaethau mewn elw o ran cyllid bob blwyddyn – ac mae hyn yn wir er bod Llywodraeth y DU wedi symud i setliadau aml-flwyddyn ar gyfer y gwledydd datganoledig. Nid ydym yn credu bod yr ataliad a achosir gan gylch cyfrifo blynyddol yn sail resymegol ddigon cryf dros beidio â chyflwyno setliadau aml-flwyddyn. Mae manteision sicrwydd a diogelwch y gall cyllidebau aml-flwyddyn eu darparu, yn ein barn ni, yn drech na'r heriau a geir yn sgil cylch cyfrifo 12 mis.

O ystyried eich bod eisoes yn cyhoeddi cyllidebau dangosol tair blynedd, a wnewch chi ymrwymo'n awr i symud y tu hwnt i hyn, ac ymrwymo i gyflawni dyfarniadau cyllid aml-flwyddyn ar gyfer cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru?

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru roi setliadau ariannu aml-flwyddyn i'w cyrff a noddir gan y cyhoedd er mwyn darparu sicrwydd cyllid dros gyfnod hwy.

### Sgiliau yn y sector creadigol

Mynegwyd pryderon y byddai prinder sgiliau posibl yn cyfyngu ar dwf yn y diwydiannau sgrin yn 2018. Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd corff sgiliau creadigol newydd yn cael ei ddarparu'n fewnol drwy Cymru Greadigol. Yn eu hymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft 2021-22, dywedodd yr wyth Cwmni Cenedlaethol a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru fod y fenter sgiliau creadigol newydd hon:

*...yn gofyn am gefnogaeth ariannol i sicrhau y gellir gwireddu anghenion a chyfleoedd i dyfu. Yn benodol, mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer rhagor o brentisiaethau (gan gynnwys cyd-brentisiaethau); datblygu a hyrwyddo cyrsiau trosi sy'n galluogi pobl â sgiliau trosglwyddadwy i symud i'r sector a hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus.*

Mewn perthynas â sgiliau creadigol, a allech amlinellu eich cynlluniau ar gyfer:

- nifer y prentisiaethau ar gyfer y sector ar gyfer 2021-26;



- datblygu cyrsiau newydd er mwyn helpu i ateb y galw a grëir gan y sector;
- ateb y galw am swyddi yn y sector.

### Setliad cyflog yn y sector cyhoeddus

Nodwyd eich sylwadau nad oes darpariaeth o fewn llinellau gwariant y gyllideb ddrafft bresennol i fynd i'r afael â chodiadau cyflog yn y sector cyhoeddus. Fel y trafodwyd yn ein cyfarfod, o ystyried y gyfradd gyfredol o chwyddiant a chodiadau cyflog sy'n ddyledus i weithwyr y sector cyhoeddus, rydym yn pryderu y gallai'r setliadau drafft mewn gwirionedd droi'n doriadau cyllid mewn termau real. Fodd bynnag, nodwyd gennych fod potensial ar gyfer dyraniadau ychwanegol i helpu gyda'r costau hyn.

Derbyniwn mai swm cyfyngedig o arian sydd, ond mae angen sicrwydd ar sefydliadau'r sector cyhoeddus. Byddem yn argymhell eich bod yn rhoi ymrwymiad cryfach i'r sefydliadau hyn y byddwch yn gweithio'n ddiwyd gyda hwy ar y costau setliad cyflog.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru roi ymrwymiad cryfach i helpu sefydliadau yn y sector cyhoeddus i ariannu codiadau cyflog i staff.

### Sesiwn graffu ar dreftadaeth

Yn olaf, ac yn ymwneud â'ch cyfrifoldebau gweinidogol, byddem yn croesawu'r cyfle i gynnal sesiwn graffu ar eich gwaith sy'n ymwneud â threftadaeth. Rydym yn rhagweld y gallai hyn ddigwydd ar ffurf sesiwn undydd yn ystyried y materion sy'n wynebu'r sector treftadaeth yng Nghymru. Byddai hyn yn cynnwys trafodaethau ar safleoedd hanesyddol, cadwraeth hanesyddol a chynlluniau ar gyfer y dyfodol ar gyfer tymor y Senedd hon. Fel arall, os nad yw hyn yn bosibl cyn yr haf, byddem yn croesawu'r cyfle i gael sesiwn friffio dechnegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn helpu Aelodau'r Pwyllgor i ddeall y gwaith yn y maes hwn yn well.

Yn gywir,



Delyth Jewell AS

Cadeirydd

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol  
Senedd Cymru

---

# Atodiad B: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23: Cysylltiadau Rhyngwladol

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,  
Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

**Culture, Communications, Welsh Language,  
Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
SeneddDiwylliant@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddDiwylliant  
0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddCulture@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddCulture  
0300 200 6565

Mark Drakeford AS  
Y Prif Weinidog  
Llywodraeth Cymru

4 Chwefror 2022

Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23: Cysylltiadau Rhyngwladol

Annwyl Mark,

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ddydd Mercher 19 Ionawr 2022 i drafod Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23. Yn dilyn y cyfarfod, hoffem godi rhai pwyntiau pellach gyda chi ynglŷn â'r gyllideb ddrafft ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol. Lle bo'n briodol, rydym hefyd yn gwneud argymhellion ar gyfer y Gyllideb Ddrafft.

Byddwn yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid i lywio ei waith craffu ar y Gyllideb Ddrafft.

**Tryloywder ar gynlluniau gwariant**

Roeddem yn siomedig i beidio â chael unrhyw fath o dystiolaeth ysgrifenedig gennych cyn y cyfarfod fel sy'n arferol. Hyd y deallwn, chi oedd yr unig Weinidog i beidio â gwneud hynny. Yn lle hynny, roeddem yn dibynnu ar wybodaeth a ddarparwyd yn flaenorol a oedd yn anghyflawn neu'n cyfeirio at wariant mewn cyllidebau blaenorol.

Byddem felly yn gofyn ichi sicrhau bod cyllidebau yn y dyfodol yn cael eu cyhoeddi gyda'r manylion sydd eu hangen arnom i gyflawni ein swyddogaeth graffu yn briodol. Er y gallai cyfanswm y gwariant ar Gysylltiadau Rhyngwladol fod yn llai o gymharu â gweddill cyllideb Llywodraeth Cymru, credwn fod hwn yn waith pwysig ac felly byddem yn disgwyl gweld gwell tryloywder yn cael ei ddarparu ar gyfer eich cynlluniau gwariant.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi rhagor o fanylion am y llinell wariant yn y gyllideb ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol mewn dogfennau cyllideb ddrafft yn y dyfodol ac mewn dogfennau cyllideb eraill lle bo'n berthnasol, megis cynigion y Gyllideb Atodol

### Cyllid ar gyfer cynlluniau gweithredu

O'r gyllideb o £8.9 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol, nodwyd gennych fod £3.22 miliwn wedi'i ddyrannu yn ei hanfod at ddibenion rheolaeth fewnol i'r pedwar cynllun gweithredu sy'n sail i'n strategaeth ryngwladol. Nodwyd gennych fod y dyraniadau cyllid ar gyfer y pedwar cynllun gweithredu fel a ganlyn:

Cynllun gweithredu	Dyraniad cyllid (£)
Ymgysylltu â Chymry ar wasgar	£190,000
Perthnasoedd a rhwydweithiau rhanbarthol sy'n cael blaenoriaeth	£150,000
Cymru ac Affrica	£350,000
Cysylltiadau rhyngwladol drwy ddiplomyyddiaeth gyhoeddus a phŵer meddal	£1,400,000
<b>CYFANSWM</b>	<b>£2,090,000</b>

Fel y gwelwch, mae diffyg o tua £1.13 miliwn rhwng cyfanswm y gyllideb a ddyrannwyd a'r dyraniadau cyllid a amlinellwyd gennych yn y cyfarfod. Mewn gohebiaeth flaenorol i'r Pwyllgor, rydych wedi cadarnhau bod swm tebyg wedi'i ddyrannu ar gyfer gweithgareddau trawsbynciol yn 2021-22. Er cyflawnder, byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau bod yr £1.13 miliwn ychwanegol wedi'i dyrannu ar gyfer yr un gweithgarwch yn ogystal ag amlinellu'r hyn y mae'r gweithgarwch hwn yn ei gynnwys. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech hefyd gadarnhau: pam mae'r dyraniadau ar gyfer rhai cynlluniau gweithredu wedi newid o gymharu â 2021-22; os yw hyn yn gynydd neu'n ostyngiad yng nghyllideb derfynol 2022-23 ar gyfer y pedwar cynllun gweithredu; a ragwelir hefyd y bydd hyn yn wir yn y gyllideb ddangosol ar gyfer blynyddoedd 2023-24 a 2024-25, ac ar beth y bydd ffocws y gwariant hwn.

Nid ydym yn glir beth yw ystyr 'dibenion rheoli mewnol' a pha ganlyniadau a fydd yn cael eu cyflawni o ganlyniad i'r gwariant hwn. Byddem felly yn croesawu rhagor o wybodaeth am y

camau gweithredu a fydd yn cael eu cyflawni gan Lywodraeth Cymru o ganlyniad i'r gwariant hwn yn 2023-24.

### Rhaglen Cymru o Blaid Affrica

Fel yr amlinellwyd uchod, nodwyd gennych fod £350,000 yn cael ei ddyrannu ar gyfer agweddau ar raglen Cymru ac Affrica sydd o fewn eich cyfrifoldebau gweinidogol. Fodd bynnag, nodwyd gennych hefyd fod rhagor o arian ar gyfer y rhaglen hon sy'n dod o dan gyfrifoldebau'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol. Ar wahân i *Brosiect Plannu Coed Mbale Maint Cymru*, roeddem o dan yr argraff mai cyfrifoldeb y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol oedd y Rhaglen Cymru ac Affrica gyfan. O ystyried hyn, byddem yn croesawu eglurhad ar y canlynol:

- pa agweddau ar y rhaglen Cymru ac Affrica sy'n dod o dan wahanol linellau gwariant yn y gyllideb ar eich cyfer chi a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, a chadarnhad o lefel y cyllid sy'n sail i'r rhaniad cyfrifoldebau;
- y rhesymeg dros rannu'r rhaglen Cymru ac Affrica rhwng dau Weinidog gwahanol yn Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi rhagor o fanylion yn amlinellu'r cyfrifoldebau gwahanol ar gyfer y rhaglen Cymru ac Affrica ar gyfer gwahanol Weinidogion.

### Gwariant swyddfa rhyngwladol

Mae gweddill y gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol (swm o £5.434 miliwn) yn cael ei ddyrannu i waith swyddfeydd rhyngwladol Llywodraeth Cymru. Yn ychwanegol at y dystiolaeth a ddarparwyd gennych yn y sesiwn, byddem yn ddiolchgar pe baech yn amlinellu'r canlynol:

- y gyllideb derfynol ar gyfer 2021-22 ar gyfer pob un o swyddfeydd rhyngwladol Llywodraeth Cymru a'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2022-23 ar gyfer pob swyddfa;
- y cyllidebau dangosol ar gyfer pob swyddfa ar gyfer 2023-24 a 2024-25;
- pa ddyraniadau cyllid ychwanegol, os o gwbl, sy'n cael eu darparu i unrhyw swyddfa ryngwladol ar gyfer rhaglenni gwaith untro h.y. a yw swyddfa Toronto yn derbyn cyllid ychwanegol i gynorthwyo gyda rhaglen waith Cymru yng Nghanada?

Byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau a ddarperir cyllid i'r swyddfeydd rhyngwladol gan Weinidogion ac adrannau eraill o Lywodraeth Cymru o ystyried rôl y swyddfeydd ar faterion yn ymwneud â masnach a mewnfuddsoddi.

### **Ariannu gwaith cysylltiadau rhyngwladol mewn rhannau eraill o'r llywodraeth**

Er bod un Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol, mae'n amlwg bod rhai dyraniadau i gyflawni gweithgarwch rhyngwladol a'r strategaeth rhyngwladol wedi'u cynnwys o fewn dyraniadau cyllideb ddrafft adrannol eraill. Er enghraifft, mae'r gwariant ar gyfer gweithgareddau mewnfuddsoddi wedi'i gynnwys o dan Brif Grŵp Gwariant yr Economi sy'n gyfrifoldeb Gweinidog yr Economi, ac mae'r gwariant ar gyfer y Rhaglen Cyfnewid Dysgu Rhyngwladol wedi'i gynnwys o dan Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg, sy'n gyfrifoldeb Gweinidog y Gymraeg ac Addysg. Rydym yn gwerthfawrogi nad yw mentrau o'r fath yn dod o fewn eich cyfrifoldebau uniongyrchol o ran cysylltiadau rhyngwladol chwaraeon, ac felly byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu dadansoddiad o'r canlynol:

- y cyllid a ddyrennir ar gyfer yr holl raglenni rhyngwladol ar draws gwahanol adrannau Llywodraeth Cymru;
- manylion am bob un o'r rhaglenni hyn a sut maent yn cyd-fynd â strategaeth rhyngwladol Llywodraeth Cymru; a
- chadarnhad ynghylch pwy sy'n gyfrifol am gydgyssylltu'r rhaglenni hyn i sicrhau eu bod yn cyflawni canlyniadau effeithiol ac yn sicrhau gwerth am arian.

### **Craffu ar Gysylltiadau Rhyngwladol yn rheolaidd**

Yn olaf, byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau a fyddech yn fodlon derbyn ein gwahoddiad i fynychu sesiwn graffu reolaidd gyda'n Pwyllgor. Er ein bod yn deall bod gennych lawer o flaenoriaethau cystadleuol yn eich dyddiadur, credwn fod gwaith cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn hollbwysig ac, felly, y dylai fod yn destun gwaith craffu rheolaidd.

Yn ein cyfarfod gwnaethoch awgrymu y gallai sesiynau hanner tymor y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ddarparu cyfleoedd i'r gwaith craffu hwn ddigwydd. Sefydlwyd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog i graffu ar y Prif Weinidog ar unrhyw fater sy'n berthnasol i'r gwaith o arfer swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Gyda nifer o faterion cystadleuol a phwysig megis ymateb parhaus y llywodraeth i'r pandemig COVID, nid ydym fel Pwyllgor yn credu bod y sesiynau hynny'n briodol felly i graffu'n ddigonol ar eich gwaith yn y maes penodol hwn. At hynny, nid yw Cadeirydd ein Pwyllgor yn eistedd ar y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ychwaith.

Byddwch hefyd yn ymwybodol bod Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol wedi mynychu cyfarfodydd pwyllgor yn eithaf rheolaidd yn ystod tymor y Bumed Senedd (2016-21). O ystyried nad oes gweinidog penodol dros gysylltiadau rhyngwladol mwyach, credwn ei bod yn bwysig bod y pwyllgor yn cynnal gwaith craffu ar y maes gwaith hwn. Byddem felly yn croesawu'r cyfle i drafod a chraffu ar waith cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn rheolaidd.

Yn gywir,



Delyth Jewell AS

Cadeirydd

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol  
Senedd Cymru

# Atodiad C: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23: Y Gymraeg

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,  
Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

**Culture, Communications, Welsh Language,  
Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
SeneddDiwylliant@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddDiwylliant  
0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddCulture@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddCulture  
0300 200 6565

Jeremy Miles AS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Llywodraeth Cymru

4 Chwefror 2022

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23

Annwyl Jeremy,

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ddydd Mercher 19 Ionawr 2022 i drafod Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23. Yn dilyn y cyfarfod, hoffem godi rhai pwyntiau pellach gyda chi ynglŷn â'r gyllideb ddrafft ar gyfer y Gymraeg.

Byddwn yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid i lywio ei waith craffu ar y Gyllideb Ddrafft.

**Yr Economi a'r Gymraeg**

A fydddechystal ag amlinellu eich disgwyliadau ar gyfer cynllun Arfor o ran ei effaith ar y Gymraeg? O ystyried mai diben datganedig y cynllun yw 'cefnogi creu mwy a gwell swyddi yng

nghadarnleoedd y Gymraeg a thrwy hynny cefnogi parhad a thwf y Gymraeg',<sup>1</sup> pa ddangosyddion perfformiad allweddol y disgwylir i bartneriaid cyflawni eu bodloni fel amod o dderbyn cyllid?

A fu gwerthusiad o'r cynllun hyd yma? Os felly, a fyddech cystal â rhannu canlyniadau'r gwerthusiad hwn â'r Pwyllgor?

Gwnaethoch sôn bod Bord Gron yr Economi a'r Gymraeg wedi'i defnyddio i lywio cynllun Arfor a'r gwaith ar gynlluniau cydweithredol yr ydych yn eu datblygu. A fyddech cystal â nodi'r cylch gorchwyl ar gyfer y Ford Gron a rhannu â'r Pwyllgor unrhyw allbynnau o'u trafodaethau a ddefnyddir i lywio polisi iaith, megis cofnodion eu cyfarfodydd. Hefyd, a allech rannu'r cynigion ar gyfer cymorth y Llywodraeth i gyrff cydweithredol, a'r cysylltiad â chefnogi'r Gymraeg gyda'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl?

### **Addysg cyfrwng Cymraeg**

O ran yr £8 miliwn ychwanegol dros dair blynedd ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a fyddech cystal â nodi sut y bydd y cyllid yn cael ei ddyrannu i bob sefydliad a pha amcanion a osodwyd iddynt?

Mae'r cyllid ychwanegol ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i'w groesawu'n fawr, yn enwedig gan fod y sector addysg ôl-16 yn faes y mae'r Pwyllgor a'i rhagflaenodd yn y Bumed Senedd wedi bod yn pwysu am fwy o fuddsoddiad.

Wedi dweud hyn, y ffordd orau o sicrhau bod plant yn caffael yr iaith yn llawn ac felly yn gadael yr ysgol yn rhugl yn y Gymraeg, yw eu bod yn cael eu trochi yn yr iaith o oedran cynnar iawn – mae hynny'n golygu buddsoddiad sylweddol yn narpariaeth y blynyddoedd cynnar a throsglwyddiad iaith. Gwnaethoch nodi bod gan y Rhaglen Lywodraethu bwyslais ar gaffael iaith yn y blynyddoedd cynnar a bod gan y Mudiad Meithrin darged i agor 60 o gylchoedd meithrin ychwanegol yn ystod y Senedd hon. Beth yw'r goblygiadau o ran adnoddau i'r Mudiad Meithrin er mwyn cyrraedd y targed hwn, a pha werthusiad sydd wedi'i wneud mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed rhwng 2017 a 2021?

Gwnaethoch nodi hefyd eich bod wedi dyrannu £200,000 ychwanegol ar gyfer gweddill y flwyddyn hon i ehangu rhai o weithgareddau'r Mudiad ac i ddarparu '*cyfleoedd galwedigaethol*'.

---

<sup>1</sup> **Rhaglen ARFOR**



A fydddech cystal â rhoi manylion i'r Pwyllgor am y dyraniad ychwanegol hwn a'r canlyniadau a ragwelir?

### Cynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg

Mae datblygiadau arwyddocaol ar y gweill o fewn y sector addysg, a nifer o ofynion newydd ar ysgolion ac athrawon yn ymwneud â'r Gymraeg, megis:

- y Cwricwlwm newydd i Gymru sydd i'w gyflwyno cyn bo hir gyda ffocws o'r newydd ar ieithoedd a diwylliant;
- safonau proffesiynol newydd i ymarferwyr ddatblygu eu sgiliau Cymraeg;
- canllawiau newydd ar gyfer categorïddio ysgolion gyda'r nod o symud ysgolion ar hyd y continwmm iaith.

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch gyfeirio at fesurau i ddiwallu'r angen hwnnw, megis y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg i 'uwchsgilio ... y gweithlu presennol fel bod gyda nhw well gapasiti a gwell sgiliau i ddarparu'.

Gwnaethoch nodi hefyd bod y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn darparu cyrsiau ar-lein i athrawon. Deallaf fod hyn yn cynyddu hyblygrwydd y ddarpariaeth ac y gallai felly apelio at yr athrawon hynny nad ydynt yn gallu neu'n fodlon cofrestru ar y Cynllun Sabothol.

Fodd bynnag, o ystyried bod Adroddiad Blynyddol diweddaraf Cymraeg 2050 yn dangos gostyngiad yn nifer yr athrawon cynradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod nifer yr athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi aros yn gymharol sefydlog, pa ystyriaeth a roesoch i ehangu cyllideb a chwmpas y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg?

Pa gamau yr ydych wedi'u cymryd mewn ymateb i'r casgliadau a'r argymhellion yn y gwerthusiad o'r Cynllun Sabothol?

Gyda'i gilydd, mae'r Cynllun Sabothol, y cynllun iaith Athrawon Yfory, y dysgu ar-lein gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'u cynllun peilot ar gyfer myfyrwyr prifysgol, yn dangos agwedd greadigol tuag at gynyddu nifer yr athrawon. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod y cynlluniau hyn, ar hyn o bryd, yn darparu'r ymyrraeth sy'n angenrheidiol i gynyddu capasiti addysgu i gyrraedd targedau Cymraeg 2050. Sut y bydd llwyddiant yr ymyriadau amrywiol yn cael ei fesur yn erbyn targedau Cymraeg 2050 y Llywodraeth?

## Cyhoeddiad cyllid ychwanegol

Ar 18 Ionawr 2022, gwnaethoch gyhoeddi £1 filiwn i annog y defnydd o'r Gymraeg. Rwy'n deall:

- y bydd £600,000 yn cael ei ddarparu i'r Eisteddfod Genedlaethol tuag at gynnal digwyddiad 2022 yn Nhregaron;
- y darperir cyllid i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys creu cyrsiau blasu ar-lein i ffoaduriaid a cheiswyr lloches ddysgu Cymraeg, heb fod angen bod yn rhugl yn y Saesneg; ac
- y darperir cyllid ar gyfer Rhieni dros Addysg Gymraeg i ddatblygu gwybodaeth am addysg cyfrwng Cymraeg mewn ieithoedd lleiafrifol a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ymhlith cymunedau lleiafrifoedd ethnig.

A fydddech cystal â nodi faint o gyllid a ddarperir ar gyfer pob un o'r prosiectau hyn ac a yw'n arian 'newydd' neu a yw'r cyllid wedi'i aildefnyddio o'r cyllidebau presennol? A fydddech cystal â dweud wrth y Pwyllgor pam yr ydych wedi blaenoriaethu'r sefydliadau hyn ar gyfer cyllid ychwanegol a'r broses ymgynghori y bu ichi ei dilyn cyn gwneud y penderfyniad hwn?

## Prosiect 2050

Wrth drafod cynllunio ieithyddol, soniwyd y bydd Prosiect 2050 yn comisiynu darn o waith gan Dr Simon Brooks i gael gwell dealltwriaeth o'r 'impact cymdeithasol-economaidd ehangach ar y Gymraeg'. Aethoch ymlaen i ddweud y gellid defnyddio'r dadansoddiad hwn i asesu'r cyfleoedd ar draws y Llywodraeth i 'newid eich gofynion polisi, newid y pwerau sydd ar gael yn y meysydd yna, yn adlewyrchu'r amgylchiadau lleol'.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gwaith hwn ac adrodd ar y canlyniadau a sut y cânt eu defnyddio i ddylanwadu ar benderfyniadau polisi ar draws y Llywodraeth.

## Tynnu cynllun Helo Blod Lleol yn ôl

Yn dilyn eich cyhoeddiad ar 18 Ionawr 2022 i dynnu 'Helo Blod Lleol' yn ôl, a allech roi manylion am eich rhesymeg dros y penderfyniad, ac unrhyw asesiad o'r effaith y bydd yn ei gael ar bartneriaid cyflawni?

## Tai a'r Gymraeg

Gwnaethoch sôn bod eich adran yn cymryd rhan mewn gwaith ar y cyd ar y sector tai gyda Gweinidog yr Economi, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a'r Gweinidog Newid Hinsawdd i

'edrych mewn ffordd sy'n eithaf heriol, efallai, i'r patrymau arferol ar beth yw'r ystod o bethau y gallwn ni eu gwneud'.

Hoffai'r Pwyllgor wybod mwy am y dull creadigol hwn o ymdrin â'r sector tai a'r Gymraeg. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech adrodd ar y gwaith hwn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Byddem yn ddiolchgar o gael eich sylwadau ar y meysydd a amlygwyd, a chael gwell dealltwriaeth o sut y bydd y targedau a nodir yn Cymraeg 2050 yn cael eu rhannu ar draws adrannau'r llywodraeth a'u goruchwyllo gan eich adran eich hun, a sut mae gwaith yn y maes hwn yn cael ei flaenoriaethu.

Yn gywir,



Delyth Jewell AS

Cadeirydd

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

Senedd Cymru